Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ysbyty De Sir Benfro, Ward Cleddau

## Dyddiad y gweithgarwch: 28 Medi 2020

Dyddiad cyhoeddi: 26 Hydref 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-80082-381-5

WG41024

(h) Hawlfraint y Goron 2020

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ward Cleddau yn Ysbyty De Sir Benfro fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r Arweinydd Clinigol ar gyfer Ysbytai Cymunedol a'r Pennaeth Nyrsio Cymunedol (Sir Benfro) ar 28 Medi 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

## Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19; a'r newidiadau a wnaed ganddo i sicrhau ei fod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion. Gwnaethom adolygu polisïau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod yr angen am welyau ymchwydd[1] ychwanegol mewn ymateb i

bandemig COVID-19 wedi arwain at ddatblygu Ward Cleddau yn Ysbyty De Sir Benfro. Asesodd y tîm rheoli heintiau'r ward a gwnaeth gadarnhau bod Ward Cleddau yn addas ar gyfer cleifion gwyrdd[2].

Er na fydd yr asesiad risg amgylcheddol ffurfiol yn cael ei gwblhau tan fis Tachwedd 2020, dywedwyd wrthym am yr asesiadau a gynhaliwyd er mwyn sicrhau bod y ward yn addas at y diben ac yn ddiogel i'r cleifion. Mae polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, yn ogystal â systemau cofnodi er mwyn sicrhau y gellir cofnodi unrhyw faterion yn ymwneud â'r amgylchedd/cleifion.

Dywedwyd wrthym nad oedd modd i'r cleifion gael ymwelwyr ar y ward yn ystod y pandemig, yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, mae proses ymweld wedi cael ei chyflwyno i'r cleifion hynny y mae angen cefnogaeth eu teuluoedd a'u gofalwyr arnynt yn ôl asesiad gan y staff.

Dywedwyd wrthym fod y swyddog cyswllt teulu yn cefnogi cleifion nad oes modd iddynt gael ymwelwyr wyneb yn wyneb drwy eu helpu i wneud galwadau fideo a galwadau dros y ffôn, fel bod modd cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau.

Dywedwyd wrthym fod gan y ward ddigon o PPE a bod lefelau stoc yn cael eu monitro'n rheolaidd.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwyso neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Ysbyty dydd oedd Ward Cleddau ond cafodd ei ad-drefnu a'i baratoi ar gyfer gwelyau ychwanegol. Mae Ward Cleddau yn estyniad i Ward Sunderland ac felly mae proffil y cleifion yr un fath, sef adsefydlu'r cleifion.
Ymhlith y mesurau a oedd wedi cael eu rhoi ar waith i ddiogelu urddas y cleifion roedd

[1] mae capasiti ymchwydd yn cyfeirio at y gallu i werthuso a gofalu am gynnydd nodedig mewn cleifion – un sy'n herio neu sy'n mynd y tu hwnt i'r capasiti gweithredu normal (https://www.phe.gov/Preparedness/planning/mscc/handbook/chapter1/Pages/whatismedicalsurge.aspx)
[2] Gwyrdd: cleifion nad oes ganddynt COVID-19

ardaloedd gwely ar wahân i ddynion a menywod. Caiff urddas ei chynnal drwy ddefnyddio sgriniau a rhai llenni urddas. Mae gan yr holl ardaloedd gwely reiliau ar gyfer y llenni, a chadarnhaodd y staff eu bod yn aros am lenni llawn.

Mae staff sy'n siarad Cymraeg hefyd ar gael er mwyn sicrhau bod modd i'r cleifion siarad eu dewis iaith.

Mae swyddog cyswllt teulu yn helpu'r cleifion i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau drwy alwadau ffôn a thrwy ddefnyddio dyfeisiau electronig, ac yn sicrhau bod teuluoedd a gofalwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf fel bod proses gyfathrebu dda. O ganlyniad i'r cyfyngiadau symud, prin y ceir ymwelwyr. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym am yr amgylchiadau lle roedd rhai ymwelwyr yn cael eu cefnogi i weld cleifion y mae angen cefnogaeth eu teulu neu eu gofalwyr arnynt. Rhoddir PPE priodol i'r ymwelwyr hyn.

Dywedwyd wrthym fod arolygiadau gan dîm iechyd a diogelwch y bwrdd iechyd a'r adran atal a rheoli heintiau ac arolygiad tân wedi cael eu cwblhau er mwyn troi'r ysbyty dydd yn ward. Cynhelir adolygiadau rheolaidd gan y nyrs arweiniol glinigol a rheolwr y ganolfan adnoddau er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer gofal cleifion. Dywedwyd wrthym fod unrhyw gamau gweithredu a nodir o ganlyniad i'r ymweliadau hyn wedi cael eu cymryd.

Dywedwyd wrthym fod y cyfarpar yn cael ei archwilio a bod hyn wedi arwain at newid nifer o fatresi a gwelyau proffilio. Mae system ar waith i sicrhau bod unrhyw gyfarpar sydd wedi torri neu sydd angen ei newid yn cael ei fonitro a'i nodi.

Dywedwyd wrthym fod rowndiau bwriadol[3] a Hanfodion Gofal[4] ar waith er mwyn sicrhau gofal a diogelwch y cleifion. Roedd archwiliadau o friwiau pwyso a niwed i'r feinwe yn dangos nad oedd unrhyw broblemau ers iddynt gychwyn ym mis Mehefin 2020, a chofnodwyd tri chwymp ym mis Mehefin 2020. Cadarnhawyd bod y digwyddiadau hyn yn ymwneud ag un claf a bod y claf wedi cael ei asesu a'i symud i ward arall o ganlyniad.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedwyd wrthym nad oes asesiad risg amgylcheddol ffurfiol wedi cael ei gwblhau ar gyfer Ward Cleddau eto ond mai'r bwriad yw ei gwblhau yw mis Tachwedd 2020. Er gwaethaf y mesurau a gymerwyd i sicrhau bod y ward yn ddiogel ac yn addas at y diben, rhaid rhoi blaenoriaeth i'r asesiad risg.

[3] Proses strwythuredig yw **Rowndiau Bwriadol** lle mae nyrsys mewn ysbytai yn cynnal gwiriadau rheolaidd, bob awr fel arfer, gyda chleifion unigol gan ddefnyddio protocol safonol i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â newid safle, poen, anghenion personol a lleoli eitemau. (https://bmjopen.bmj.com/content/7/1/e014776)

[4] Mae **hanfodion gofal** yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, maeth, hydradu, **gofal** y bledren a'r coluddyn, codi a chario corfforol a sicrhau bod y rhai hynny sy'n derbyn **gofal** yn cael eu cadw mewn lle glân a hylan... gan sicrhau eich bod yn helpu'r rhai hynny na allant fwydo eu hunain nac yfed heb gymorth. (www.rcn.org.uk)

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisïau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod polisïau atal a rheoli heintiau cyfredol ar waith, a ategwyd gan ddogfennau canllaw a chyngor penodol ar COVID-19. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r staff am atal a rheoli heintiau yn ddyddiol.

Dywedwyd wrthym fod systemau ar waith i sicrhau bod mesurau atal a rheoli heintiau yn effeithiol. Roedd y rhain yn cynnwys gweithio gyda'r tîm atal a rheoli heintiau i sicrhau bod archwiliadau yn cael eu cynnal a bod canlyniadau yn cael eu monitro a'u gweithredu'n briodol. Dywedwyd wrthym fod yr archwiliad atal a rheoli heintiau a gyflwynwyd wedi cael ei adolygu a bod y meysydd yr oedd angen gweithredu arnynt wedi cael eu cwblhau. Roedd yr archwiliad hylendid dwylo yn dangos cydymffurfiaeth lawn. Caiff canlyniadau archwiliadau atal a rheoli heintiau eu harddangos ar hysbysfyrddau ar y ward.
Gwelsom dystiolaeth bod dros 82% o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant atal heintiau gorfodol. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cael hyfforddiant ychwanegol o ran gwisgo a diosg PPE a masgiau wyneb FFP3[5].

Ni thynnwyd sylw at unrhyw broblemau o ran argaeledd PPE – caiff y stoc ei wirio yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod digon o gyflenwadau ar gael. Mae posteri ac arwyddion ar sut i ddefnyddio PPE yn gywir wedi'u harddangos ym mhob ardal glinigol.

Dangosodd y data a gafwyd na fu unrhyw haint nad oedd yn gysylltiedig â COVID-19 ar y ward. Dywedwyd wrthym fod yr arweinydd clinigol yn rhoi gwybod am achosion o heintio ac yn eu hadolygu a bod unrhyw beth a ddysgir o'r digwyddiadau yn cael ei rannu mewn cyfarfodydd tîm.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

[5] Caiff masg FFP3 ei wisgo wrth gynnal gweithdrefnau cynhyrchu aerosol heintus o bosibl

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisïau (megis uwchgyfeirio).

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod gweithdrefnau addas ar gael i sicrhau bod lefelau staffio yn briodol, a oedd yn cynnwys trafodaethau wythnosol â thîm y gweithlu. Caiff y lefelau staffio eu cynyddu pan fo angen, er enghraifft cynhelir asesiadau dibyniaeth ac aciwtedd dyddiol er mwyn nodi unrhyw heriau o ran staffio fel cleifion sydd angen cymorth ychwanegol neu ymchwydd mewn capasiti ar y ward.

Dywedwyd wrthym fod rotas staffio yn cael eu cwblhau ymlaen llaw a bod modd defnyddio staff banc os bydd prinder staff. Roedd y staff yn ymwybodol o'r broses sydd ar waith er mwyn gofyn am staff banc/asiantaeth.

Roedd y data a gafwyd yn dangos bod nifer o swyddi gwag ar gyfer Wardiau Cleddau a Sunderland. Fodd bynnag, rhoddwyd gwybod inni eu bod wedi gwneud sawl penodiad llwyddiannus ers cyflwyno'r data ac felly roedd gan y ward y nifer llawn o staff.
Gwelsom fod cyfleoedd o ran gyrfa ar y ward, er enghraifft y cyfle i ymarferydd cynorthwyol[6] band 4 ddatblygu i weithio ochr yn ochr â'r nyrsys cofrestredig i fodloni gofynion y ward.

Dywedwyd wrthym fod cyfraddau salwch byrdymor a hirdymor wedi gwella yn ystod mis Awst a mis Medi o'u cymharu â mis Gorffennaf 2020. Fodd bynnag, roedd rhai absenoldebau heb eu trefnu oherwydd COVID-19 a gofynion hunanynysu.

Cawsom ystadegau hyfforddiant gorfodol a gwelsom fod lefel uchel o gydymffurfio yn y rhan fwyaf o feysydd. Roedd peth hyfforddiant a oedd yn gofyn am gyswllt wyneb yn wyneb wedi dod i ben oherwydd COVID-19 ond, lle y bo'n bosibl, mae opsiynau amgen wedi cael eu nodi. Er enghraifft, bellach gellir cwblhau hyfforddiant diogelwch tân ar-lein. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant gorfodol yn cael ei fonitro'n rheolaidd a bod hyfforddiant ychwanegol ar gael i'r staff, er enghraifft, sut i wisgo a diosg PPE.

Dywedwyd wrthym fod digon o gefnogaeth ar gael i'r staff. Roedd y data a gafwyd yn dangos cyfraddau cydymffurfio uchel o ran arfarniadau'r staff. Mae cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal sy'n cael eu cofnodi, ac mae cylchlythyr staff yn cael ei lunio sy'n cynnwys y

[6]Mae ymarferwyr cynorthwyol yn gweithio ar lefel uwch na gweithwyr cymorth gofal iechyd ac mae ganddynt ddealltwriaeth fanylach o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a salwch. (www.rcn.org.uk)

prif bwyntiau a nodwyd mewn cyfarfodydd staff. Yn ogystal â'r cynllun cymorth i gyflogeion, roedd sesiynau llesiant yn cael eu cynnig er mwyn cefnogi unrhyw aelod o'r staff a allai fod yn gofidio am COVID-19. Mae ystafell dawel hefyd ar gael i staff sydd angen amser i ffwrdd o'r ward.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty De Sir Benfro

Ward: Cleddau

Dyddiad y gweithgarwch: 28 Medi 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.
Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiad risg amgylcheddol ei gwblhau erbyn mis Tachwedd 2020 ac yr eir i'r afael ag unrhyw gamau sy'n codi ynddo yn unol â'r gweithgareddau monitro sydd ar waith ar hyn o bryd | Safon Iechyd a Gofal 2.1, Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch | Bydd y gwasanaeth yn nodi adnodd priodol ar gyfer asesu risgiau amgylcheddol ar gyfer yr ardal erbyn mis Hydref 2020.<br><br>Bydd y gwasanaeth yn cynnal asesiad risg amgylcheddol o'r ardal erbyn diwedd mis Tachwedd 2020.<br><br>Caiff unrhyw gamau a nodwyd gan yr asesiad risg | Nyrs Arwain Glinigol - Ysbytai Cymunedol | Tachwedd 2020<br><br>Tachwedd 2020<br><br>Rhagfyr 2020 | Cwblhawyd 23/10/20<br><br>Cwblhawyd 02/11/20<br><br>Cwblhawy |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | amgylcheddol eu nodi a chaiff cynllun gweithredu ei lunio a'i adolygu'n fisol nes y bydd wedi'i gwblhau. | | | d 13/11/20<br><br>Cyfarfodydd misol yn parhau, i'w adolygu'n barhaus |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Nyrs Arwain Glinigol

Dyddiad: 13/11/2020